HUMPHREYS, RICHARD (1790 - 1863), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd



**Enw:** Richard Humphreys
**Dyddiad geni:** 1790
**Dyddiad marw:** 1863
**Priod:** Humphreys
**Priod:** Ann Humphreys (née Griffith)
**Plentyn:** Elizabeth Thomas (née Humphreys)
**Plentyn:** Jennette Griffith Morgan (née Humphreys)
**Rhiant:** Humphrey Richard
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Edward Morgan Humphreys

Ganwyd ym Mehefin 1790, mab Humphrey Richard, Gwern y Cynyddion, Dyffryn Ardudwy. Symudodd ei dad i'r Faeldref yn yr un ardal tua 1800, ac yno y bu Richard Humphreys yn byw y rhan fwyaf o'i oes, yn amaethu a phregethu ac, am gyfnod, yn cadw siop yn y Dyffryn. Bu mewn ysgol yn Amwythig. Dechreuodd bregethu yn 1819 ac ordeiniwyd ef yn 1833, ond ni bu ganddo ofalaeth eglwysig ffurfiol. Yr oedd yn nodedig am ei synnwyr cyffredin a'i ffraethineb, a chymerodd ran amlwg yng ngwaith y cyfundeb, gyda'r mudiad dirwest, ac yngl n â mudiad addysg; yr oedd yn un o'r rhai a wahoddwyd i Lundain gan Syr Hugh Owen yn 1854 i drafod y posibilrwydd o gael prifysgol i Gymru. Ysgrifennodd i'r *Traethodydd* ac i'r *Methodist*, ac yr oedd yn gyfeillgar â 'Dewi Wyn' ac 'Eben Fardd.' Ni chymerodd ran amlwg iawn mewn gwleidyddiaeth, ond yr oedd yn un o'r rhai cyntaf ymhlith gweinidogion y Methodistiaid Calfinaidd i bleidio Rhyddfrydiaeth.

Priododd, 1822, Ann, merch Capten William Griffith, y Cei, Abermaw. Bu ganddynt ddwy ferch, un ohonynt, Jennette, yn briod â'r Parch. Edward Morgan, Dyffryn. Bu Mrs. Humphreys farw yn 1852, a phriododd Richard Humphreys â Mrs. Evans, Gwerniago, Pennal, yn 1858, aeth i Bennal i fyw, ac yno y bu farw, 15 Chwefror 1863; claddwyd ym mynwent capel y Dyffryn. Yr oedd un ferch o'r ail briodas, Elizabeth, a briododd y Parch. William Thomas, Llanrwst.

## Awdur

**Edward Morgan Humphreys**, (1882 - 1955)

## Ffynonellau


Griffith Williams, *Cofiant am y Parch. Richard Humphreys, Dyffryn yn nghyda chasgliad o'i bregethau a'i draethodau* (Wrecsam 1873)

Robert Owen, *Hanes Methodistiaeth Gorllewin Meirionydd* (1891, 1899, 1928)

Edward Jones, *Y gymdeithasfa yn cynnwys gweithrediadau cymdeithasfa chwarterol y Methodistiaid Calfinaidd yn ngogledd*

*Cymru, a'r gymanfa gyffredinol ynghyda'r ordeiniadau gweinidogaethol, a'r arholiadau cymdeithasfaol, yn y gogledd a'r deheudir, hyd y flwyddyn 1890* (Caernarfon 1891)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734281

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu